Ffenestri Lliw Cadeirlan Caerloyw – Tom Denny



Y mis hwn gwaith yr arlunydd Tom Denny yng Nghadeirlan Caerloyw sy'n mynnu ein sylw. Gwydr yw cyfrwng Denny, ac mae'r arlunydd yn creu ffenestri lliw heb eu tebyg. Nid oes i'r gwaith enw na theitl, ond mae'n seiliedig a'r **Salm 148** ac **Efengyl Ioan 20: 24-29**.

Cyflwynir y Salm ar y chwith a'r dde, a'r Efengyl yn y canol. Ar y dde, ceir dehongliad o eiriau agoriadol y Salm: *"Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd, molwch ef yn yr uchelderau. Molwch ef yr holl angylion; molwch ef, yr holl luoedd. Molwch ef, haul a lleuad; molwch ef yr holl sêr disglair. Molwch ef, nef y nefoedd, a'r dyfroedd sydd uwch y nefoedd. Bydded iddynt foli enw'r Arglwydd, oherwydd ef a orchymynnodd, a chrëwyd hwy; fe'u gwnaeth yn sicr fyth bythoedd; rhoes iddynt ddeddf nas torrir..."* (Salm 148: 2-6; llun i'r chwith). Yn y ffenest gwelir aer, dwr, tan, gwynt troellog a daear yn moliannu'r Arglwydd. Mae'r haul hefyd i'w weld, a'r lleuad, gwelir pridd a chraig ac o edrych ar y tân gwelir ymyl werdd i'r fflam - tân creadigol, byw a bywiol ydyw.



Ar y chwith, ceir dehongliad symudliw o'r geiriau: *"Molwch yr Arglwydd o'r ddaear, chwi ddreigiau a'r holl ddyfnderau, tan a chenllysg, eira a mwg, y gwynt stormus, sy'n ufudd i'w air, y mynyddoedd a'r holl fryniau, y coed ffrwythau a'r holl gedrwydd; y bwystfilod a'r holl anifeiliaid. Ymlusgiaid ac adar hedegog; brenhinoedd y ddaear a'r holl bobloedd ..."* (Salm 148: 7-11; llun i'r dde). Yma, yng nghanol y bwrlwm o liw mae rhaeadr, mam a phlentyn, mwd, heulwen, eira, rhew, perthi, coed, defaid, gwartheg, dynion yn marchogaeth a llew euraid.



Mae symud egniol y ffenestri hyn yn canolbwyntio ein llygaid ac yn ein symud ninnau o'r herwydd i'r ffenestr ganol. Yma ceir dehongliad o Iesu'n ymddangos i Tomos. Gwelir Tomos ar ei liniau, ac mae Iesu yn ei ogoniant atgyfodedig. Mae'r arlunydd yn cyfleu'r foment honno pan mae Tomos yn cyffesu: *"Fy Arglwydd a'm Duw!"* (Ioan 20: 28; llun i'r chwith). Cyffes o gariad yw hwn, meddai Denny, ac o sylwi'n fanwl mae gwawl o olau coch rhyngddynt.

Mae yna awgrym hefyd o rym ac egni'r atgyfodiad. O edrych ar y gwaith yn ei gyfanrwydd o ganol llonydd y ffenest ganol, mae yna ffrwydrad o egni yn estyn allan o'r Crist atgyfodedig, ac o gyffes Tomos amdano. Mae symud y lliwiau yn ein tywys i'r canol, ac wedi cyrraedd y canol, mae llif y lliwiau yn ffrwydrad o egni.